Diweddariad CLlLC

- Mae arweinwyr Cynghorau wedi cyfarfod ar-lein heddiw i rannu gwybodaeth a'r newyddion diweddaraf, yn arbennig ar gyfyngiadau clo lleol a chynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer trydydd cyfnod ei Gronfa Cadernid Economaidd, sy'n cynnwys Cronfa Cyfyngiadau Clo Lleol o £60m ar gyfer busnesau sy'n cael eu heffeithio. Mae cyfarfod rhwng Arweinydd CLlLC, Llefarydd CLlLC dros Ddatblygiad Economaidd a Gweinidog Llywodraeth Cymru dros yr Economi yn cael ei drefnu i drafod cam 3 o'r Gronfa Cadernid Economaidd.

- Bu'r Cynghorydd Huw David (Llefarydd CLlLC dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol), Susan Elsmore (Dirprwy Lefarydd CLlLC dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol) a Llinos Medi Huws (Arweinydd Cyngor Ynys Môn) yn cwrdd â'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddydd Iau, fel cyn-gyfarfod i'r cyfarfod Rhwydwaith Aelodau Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wedi'i drefnu ar gyfer wythnos nesaf ac i gytuno ar y rhaglen. Darparodd y Gweinidogion ddiweddariad ar y sefyllfa bresennol o ran niferoedd mewn cartrefi gofal, sy'n isel, a chynhaliwyd trafodaethau am y pwysigrwydd o flaenoriaethu profion gofal cymdeithasol (cyfeiriwyd at ddatganiad y Gweinidog gynharach yn yr wythnos). Mae'r Dirprwy Weinidog hefyd yn awyddus i drafod ymweliadau â chartrefi gofal yn ei thrafodaethau gydag aelodau cabinet a'r pwysigrwydd o ystyried yr holl ddewisiadau fel bod modd i ymweliadau barhau yn ddiogel. Materion eraill a drafodwyd yn y cyfarfod oedd cynllunio ar gyfer y gaeaf, yr ymgyrch Curwch Ffliw, cefnogi a gwerthfawrogi'r gweithlu a'r nifer cynyddol o atgyfeiriadau diogelu sy'n wynebu awdurdodau lleol ar gyfer plant diamddiffyn.

Cyfyngiadau Lleol

- Heddiw cyhoeddwyd rheolau newydd i bobl sy'n byw eu hunain mewn ardaloedd cyfyngiadau lleol.
    - Mae oedolion sy'n byw eu hunain, yn cynnwys rhieni sengl, mewn ardaloedd o dan gyfyngiadau lleol yn gallu ffurfio swigen dros dro gydag aelwyd arall yn eu hardal leol o dan reolau newydd a ddaw i rym yfory (3 Hydref).
    - Mae'r rheol o chwech yn berthnasol i'r swigod aelwydydd pobl sengl newydd.
    - Mae'r Prif Weinidog hefyd wedi dweud fod Llywodraeth Cymru am weithredu i gryfhau pwerau gorfodi i awdurdodau lleol i godi dirwyon ar bobl sy'n trefnu partïon yn eu cartrefi ac i symleiddio'r broses o gyflwyno cyfyngiadau ar yfed alcohol yn gyhoeddus.
    - Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni'r adolygiad 21 diwrnod diweddaraf o'r rheoliadau coronafeirws ac ddim am wneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r rheolau cenedlaethol oherwydd y cynnydd yn gyffredinol mewn achosion ar draws Cymru.
    - Bydd y cyfyngiadau lleol a gyflwynwyd ar draws ardaloedd awdurdodau lleol dros y 10 diwrnod diwethaf yn cael eu cadw.
    - Datganiad i'r wasg Llywodraeth Cymru a datganiad ysgrifenedig: Adolygu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020.
    - Gallwch wylio'r briff i'r wasg gyda'r Prif Weinidog yma.

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

- Llywodraeth Cymru yn diweddaru canllaw ar ymweliadau ag ysbytai yn ystod y coronafeirws.

Pobl hŷn

- Mae'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi gwneud datganiad ddoe i nodi Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn.

Teithio Rhyngwladol

- Ddoe, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd ddatganiad am y Diwygiadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol (Cymru) sy'n cynnwys diweddariad ar newidiadau i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio rhag mesurau iechyd ar y ffin.
    - Mae'r Gweinidog Iechyd wedi penderfynu tynnu Bonaire, Saba a St Eustatius, Gwlad Pwyl a Thwrci oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio sy'n golygu bydd yn rhaid i deithwyr sy'n dychwelyd i Gymru o'r llefydd hyn hunanynysu. Daw'r newidiadau i rym am 04:00 fore Sadwrn.
    - Canllaw Llywodraeth Cymru ar deithwyr sydd wedi'u heithrio o reolau ffiniau Cymru: coronafeirws (COVID-19).

Cronfeydd UE

- Diweddariad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Chwestiynau Cyffredin am Gronfeydd Strwythurol UE a choronafeirws.

Ym mhle allwch chi ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf?

- Mae gwybodaeth coronafeirws ar gyfer Cynghorau ar gael yma ar wefan CLILC.
- Mae CLILC yn casglu arfer dda cynghorau yn ystod pandemig y coronafeirws yma.
- Mae Iechyd Cyhoeddus C ymru yn cyhoeddi dangosfwrdd dyddiol o ddata am achosion coronafeirws ledled Cymru, fesul bwrdd iechyd ac ardal awdurdod lleol.
- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn darparu diweddariad dyddiol sy'n canolbwyntio ar wybodaeth a diweddariadau iechyd cyhoeddus allweddol.
- Mae gwybodaeth am coronafeirws ar gael yma ar wefan Llywodraeth Cymru.
- Mae'r ddeddfwriaeth a basiwyd yng Nghymru mewn perthynas â'r pandemig coronafeirws ar gael yma yma.
- Mae gwybodaeth coronafeirws Llywodraeth y DU ar gyfer unigolion a busnesau yng Nghymru ar gael yma.

Distribution- LA Leaders, All Councillors, Chief Executives, Heads of Democratic Services and Communications Teams.

The bulletin is circulated on a Monday, Wednesday and Friday. We welcome feedback on this email update.

WLGA Update

- Council leaders met virtually today to share intelligence and updates, particularly on local lockdowns and Welsh Government's plans for the third phase of its Economic Resilience Fund (ERF), which includes a £60m Local Lockdown Fund for affected businesses. A meeting between the WLGA Leader, the WLGA Spokesperson for

Economic Development and the Welsh Government Minister for Economy is being arranged to discuss ERF phase 3.

- Cllrs Huw David (WLGA Health and Social Care Spokesperson), Susan Elsmore (WLGA Deputy Health and Social Care Spokesperson) and Llinos Medi Huws (Leader of Anglesey Council) met with the Minister and Deputy Minister for Health and Social Services on Thursday, as a pre-meet to the Social Services Cabinet Members Network meeting planned for next week and to agree the agenda. Ministers provided an update on current prevalence in care homes, which is low, and discussions were held about the importance of prioritising social care testing (the Minister's statement from earlier in the week was referenced). The Deputy Minister is also keen to discuss visits to care homes in her discussions with cabinet members and the importance of considering all options to enable visits to continue in a safe way. Other issues discussed at the meeting included winter planning, the Beat Flu campaign, supporting and valuing the workforce and the increased number of safeguarding referrals for vulnerable children being received by local authorities.

Local Coronavirus Restrictions

- New rules for people living alone in local lockdown areas have been announced today.
  - Adults living alone, including single parents, in areas under local restrictions will be able to form a temporary bubble with another household in their local area under the new rules coming into force tomorrow (3 October).
  - The rule of six will apply to these new single people household bubbles.
  - The First Minister also indicated today that the Welsh Government will act to strengthen enforcement powers for local authorities to fine people who organise house parties and to simplify the process to introduce restrictions on drinking alcohol in public.
  - The Welsh Government has carried out the latest 21-day review of the coronavirus regulations but will not be making any major changes to the national rules because of the overall rise in cases across Wales.
  - The local restrictions introduced across local authority areas over the last 10 days will also be retained.
  - Welsh Government press release and written statement: Review of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) Regulations 2020.
  - Watch today's press briefing with the First Minister here.

Health and Social Services

- Updated Welsh Government guidance on hospital visiting during the coronavirus outbreak.

Older People

- The Deputy Minister for Health and Social Services made a statement yesterday to mark International Day of Older Persons.

International Travel

- The Health Minister yesterday published a statement about the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Amendments, which includes an update

on changes to the list of countries and territories exempt from health measures at the border.

- The Health Minister has decided to remove Bonaire, Saba and St Eustatius, Poland and Turkey from the list of exempt countries and territories, meaning travellers returning to Wales from these places will have to self-isolate. These changes will come into force at 04:00 on Saturday morning.
- Welsh Government guidance on travellers exempt from Welsh border rules: coronavirus (COVID-19).

EU Funds

- Updated Welsh Government FAQ guidance on EU Structural Funds and coronavirus.

Where to find the latest information

- Coronavirus information for Councils is available here on the WLGA website
- The WLGA is collating good council practice during the coronavirus pandemic- here
- Public Health Wales publishes an interactive daily dashboard of data about coronavirus cases across Wales, broken down by health board and local authority area
- Public Health Wales also provides a daily update focusing on key public health information and updates
- Information about coronavirus is available here on the Welsh Government's website
- All the legislation passed in Wales inrelation to the coronavirus pandemic is available here
- UK Government coronavirus information for individuals and businesses in Wales is available here